**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**20 HYDREF 2022**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 20 Hydref 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Teresa Carberry **(Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Dave Mackie, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley.

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Mrs Wendy White

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Gladys Healey, Gina Maddison a Mrs Lynne Bartlett

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Tina Claydon (ar ran y Cynghorydd Gladys Healey) a
Linda Thomas (ar ran y Cynghorydd Gina Maddison)

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Swyddog Datblygu Chwarae a’r Uwch Reolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig (ar gyfer cofnod 31), Uwch Reolwr Gwella Ysgolion (ar gyfer cofnodion 32 a 33) Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Dysgu Ôl 16 ac Oedolion yn y Gymuned (ar gyfer cofnod 32)

**YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 27. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 28. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol presennol a ddiwygiwyd i gynnwys yr eitem ychwanegol ar Barcio ar Safleoedd Ysgol. Roedd hyn yn dilyn cais gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Amgylchedd a’r Economi a byddai Aelodau’r Pwyllgor hwnnw’n cael eu gwahodd i ymuno â’r cyfarfod ar gyfer yr eitem honno. Nid oedd unrhyw newidiadau pellach i’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol.

Gan gyfeirio at yr Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu fod bob un o’r camau gweithredu o’r cyfarfod diwethaf wedi cael eu cynnwys. Eglurodd bod y cam gweithredu mewn

perthynas â'r wybodaeth a geisiwyd gan y Cynghorydd Crease bellach wedi'i gwblhau. Yr unig gam gweithredu a oedd eto i'w gwblhau oedd yr ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dave Mackie.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, trefnwyd gweithdy gyda Swyddogion GwE ar gyfer dydd Llun, 5 Rhagfyr am 2.00 pm a byddai cadarnhad yn cael ei anfon dros e-bost at Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst i'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) am ei hymateb i'w gais mewn perthynas â bwlch cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal. Roedd yn falch y bydd adolygiad o berfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn nes ymlaen eleni.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r camau gweithredu heb eu cwblhau.

## 29. CYNLLUN CHWARAE GWYLIAU'R HAF SIR Y FFLINT, 2022

Gan gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Uwch Reolwr - Darpariaeth Ieuenctid Integredig bod Cynlluniau Chwarae'r Haf wedi bod yn cael eu cynnal yn llwyddiannus ers 1996. Darparodd wybodaeth ar y 57 o gynlluniau chwarae a oedd yn cynnwys meini prawf ar gyfer safleoedd, a chyfranogiad 30 o Gynghorau Tref a Chymuned a'r 2 safle sy'n targedu'r Gymraeg. Roedd dull dwyieithog yn cael ei ddatblygu gyda phob gweithiwr chwarae a oedd yn derbyn hyfforddiant Cymraeg. Dros yr haf, cafwyd bron i 4,000 o gofrestriadau, gyda 15,500 yn mynychu'r sesiynau 2 awr, roedd y data'n cael ei gasglu'n ddigidol ar gyfer bob sesiwn. Roedd hyn yn galluogi rhieni i gofrestru eu plant cyn mynychu er mwyn sicrhau bod y sesiynau'n cael eu cynnal yn llyfn gyda gwybodaeth mewn perthynas â'r plant eisoes wedi'i huwchlwytho. Amlinellodd yr Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch ar-lein a'r refeniw gan Gynghorau Tref a Chymuned, y Grant Gwaith Chwarae a'r Grant Haf o Hwyl i gefnogi'r cynlluniau. Roedd y sefyllfa mewn perthynas â'r cyllid ar gyfer Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles yn parhau i fod yn aneglur. Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr hefyd at yr ymgynghoriad a gwblhawyd gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd a gafodd ei fwydo'n ôl er mwyn datblygu'r ddarpariaeth, ac amlinellodd sut y gellid datblygu'r ddarpariaeth chwarae ymhellach.

Myfyriodd yr Uwch Reolwr ar y gwaith a gwblhawyd gan Janet Roberts dros y 26 mlynedd diwethaf. Roedd Janet yn ymddeol ac roedd arno eisiau diolch iddi'n bersonol am ei chefnogaeth. Roedd hi'n gadael y gwasanaeth

mewn sefyllfa gadarnhaol gyda 90 o bobl ifanc wedi'u cyflogi dros yr haf a rhai'n ymuno â'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie ei fod yn drist pan glywodd fod Janet yn gadael, a myfyriodd ar y trafodaethau yr oedd wedi'u cael gyda hi yn y Pwyllgor dros y blynyddoedd. Cyfeiriodd at weithdai yr oedd wedi'u mynychu gyda Janet, dywedodd fod ei brwdfrydedd yn amlwg, a'i fod wedi bod yn bleser bod yn rhan o'i siwrnai.

Gan gyfeirio at yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Mackie yr hoffai fod wedi gweld yr amcanion a gwybodaeth ynghylch yr hyn roeddent yn ceisio ei gyflawni yn ystod paratoadau'r cynlluniau chwarae ynghyd â'r canlyniadau yn yr adroddiad. Teimlai y byddai hyn yn galluogi'r Pwyllgor i ddeall cyfeiriad y gwasanaeth a gofyn cwestiynau. Mewn ymateb i hynny, ystyriodd yr Uwch Reolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig bwyntiau'r Cynghorydd Mackie gan ddweud y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu system newydd ym mis Ionawr, a fyddai'n galluogi proses ar gyfer mapio'r ddarpariaeth yn erbyn yr asesiad cyfleoedd chwarae digonol a data lleol eraill. Amlinellodd sut fyddai'r data'n amlygu'r rhesymau pam fod cynlluniau'n cael eu lleoli mewn cymunedau arbennig, y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a ble nodwyd darpariaeth gynaliadwy.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Carolyn Preece, cytunodd y Prif Swyddog i fynd i'r afael â'r mater mewn perthynas â'r llythyrau i Gynghorau Tref a Chymuned er mwyn ceisio cael yr hysbysiadau allan yn gynt yn ogystal â dangos effaith y cyfraniadau ar y cynllun. Gan gyfeirio at y pwynt ynghylch Haf o Hwyl, cadarnhaodd y byddai'r Cyngor yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru am gyllid pellach ar gyfer lles emosiynol a chorfforol pobl ifanc.

Roedd y Prif Swyddog yn falch bod Janet Roberts (Swyddog Datblygu Chwarae) yn bresennol heddiw er mwyn gallu diolch iddi am ei blynyddoedd o wasanaeth yng Nghyngor Sir y Fflint. Roedd ei hymrwymiad i bopeth yn ymwneud â chwarae yn elfen allweddol o gymhelliant ac uchelgais Janet i sicrhau llwyddiant y rhaglen cynllun chwarae. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar yr ystod o gyfleoedd a ddarparwyd i blant a phobl ifanc drwy'r cynlluniau chwarae. Diolchodd y Swyddog Datblygu Chwarae i'r Cynghorydd Mackie a'r Uwch Reolwr am eu sylwadau. Dywedodd fod y gwaith yn hynod o bwysig a diolchodd i aelodau am eu cefnogaeth. Diolchodd i'w Prif Swyddog a'i Rheolwyr Atebol dros y 26 mlynedd diwethaf am eu cefnogaeth. Dywedodd ei bod yn angerddol am weithio gyda phlant y sir, a'i bod wedi cael pleser yn gwneud hynny. Roedd y rhaglen yn darparu cyfnodau o les i blant a phobl ifanc, a gyda chynlluniau megis y cynllun cyfeillio, cefnogaeth i blant o Wcráin a phlant sy'n derbyn gofal, y sesiynau chwarae dwy awr hyn oedd y llefydd mwyaf diogel i rai plant.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad a oedd yn defnyddio'r termau "plant ag anableddau" a "phlant diamddiffyn", a nododd mai'r termau a ffafrir bellach oedd plant anabl a phlant mewn perygl. Gan gyfeirio at y gefnogaeth a ddarperir i blant o Wcráin, gofynnodd a oedd teuluoedd o Syria ac Affganistan yn cael eu cefnogi hefyd. Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod cefnogaeth yn cael ei darparu i blant o Syria ac Affganistan.

Siaradodd y Cadeirydd gyda Janet gan ddweud, er nad oeddent wedi cwrdd, ei bod wedi clywed llawer o sôn am ei gwaith ac ar ran y Pwyllgor, rhoddodd anrheg fechan iddi i ddiolch am ei gwaith.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ryan McKeown.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y bartneriaeth effeithiol gyda Chynghorau Tref a Chymuned lleol i ddarparu'r cynllun chwarae cyffredinol i blant rhwng 5 a 12 oed ar draws y sir yn ystod yr haf a Chynllun Cyfeillio Sir y Fflint i blant anabl rhwng 5 ac 17 oed;

(b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y cyfraniad gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer cynllun chwarae'r haf drwy'r grant Gwaith Chwarae Dros y Gwyliau ac yn annog LlC i barhau i gynnig y cyllid hwn; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r datblygiadau parhaus o fewn y gwasanaeth i gryfhau'r perthnasoedd gyda sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod y plant sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn Sir y Fflint yn cael eu nodi a'u bod yn cael cyfle i chwarae dros yr haf.

## 30. ADRODDIAD ESTYN AR DDYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED O FEWN PARTNERIAETH DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned am yr adroddiad cadarnhaol yn dilyn yr Arolwg Estyn. Roedd hi'n falch o weld bod Estyn wedi gwneud cais am ddwy astudiaeth achos gan eu bod wedi arsylwi arfer gorau ac yn awyddus i'w rhannu. Roedd hi hefyd yn fodlon bod y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad eisoes wedi cael eu cydnabod gan y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned sy'n amlygu eu hunanwerthusiad cadarn.

Diolchodd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion i'r Cadeirydd am ei sylwadau. Darparodd amlinelliad cryno o'r gwaith partneriaeth uchelgeisiol gyda Wrecsam a oedd wedi galluogi Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru i ehangu'r ddarpariaeth a chyfleoedd i oedolion sy'n dysgu. Cwblhawyd llawer o'r gwaith hwn yn ystod y pandemig a thyfodd y Bartneriaeth yn ystod y cyfnod hwn, yn arbennig lefel y cyswllt â Phartneriaid. Rhoddwyd amlinelliad o'r cynnydd ers y cyfnod hwn a'r trafodaethau a gafwyd gydag Estyn mewn perthynas â'r weledigaeth ar gyfer y Bartneriaeth a'r angen am gyllid cynyddol i ddarparu'r momentwm i sicrhau bod hyn yn parhau am flynyddoedd i ddod. Gan gyfeirio at yr adroddiad gan Estyn, dywedodd fod y cais am ddwy astudiaeth achos yn ategu at weledigaeth a chyfeiriad y Bartneriaeth, yn ogystal ag argymhellion 1 i 3 a oedd eisoes wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella Ansawdd y Bartneriaeth a rannwyd gydag Estyn yn ystod yr Arolwg. O ran argymhelliad 4, roedd yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a ddarparwyd yn 2020/21 yn amlygu sut darparwyd cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu i ddysgwyr yn ystod y cyfnod

hwn, a darparodd wybodaeth ar sut gall dysgwyr ganfod mwy am gyrsiau a chofrestru, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer ymgysylltu pellach i'r dyfodol.

Dywedodd yr Ymgynghorydd ar gyfer Dysgu Ôl 16 ac Oedolion yn y Gymuned ei bod yn falch iawn o ganlyniad yr adroddiad yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Darparodd sicrwydd i'r tîm mewn perthynas â phrosesau megis yr adroddiad hunanwerthuso a'r cynllun gwella ansawdd. Roedd hyn hefyd wedi helpu i nodi'r camau nesaf i wella'r cyfleoedd a'r canlyniadau i bob oedolyn sy'n dysgu yn Sir y Fflint.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Dave Mackie'r tîm ar adroddiad yr arolwg a'r gwaith a gwblhawyd o fewn blwyddyn.

Mewn ymateb i sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie, dywedodd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion bod y cwestiynau hyn wedi codi yn y Bwrdd Rheoli, cyfarfodydd Cwricwlwm ac Ansawdd ac yn dod o dan y Cynllun Gwella Ansawdd ar gyfer y Bwrdd. Roedd hi'n gobeithio y byddai adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol yn darparu gwybodaeth ar ganlyniadau a chyflawniadau wrth i'r Bartneriaeth ddatblygu. Oedwyd prosesau casglu data cenedlaethol ar bresenoldeb, cyfraddau cwblhau a chyfraddau cyflawni yn ystod Covid, ond dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y set ddata nesaf a gesglir yn cael ei chyflwyno. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol i egluro sut datblygwyd yr argymhellion hyn i gamau gweithredu a chanlyniadau. Darparodd wybodaeth ynghylch mapio darpariaeth, presenoldeb ar-lein, ynghyd â'r adeiladau a ddefnyddiwyd, a dywedodd bod y wybodaeth hon yn cael ei bwydo'n ôl i gynllun corfforaethol a chynllun busnes portffolio'r Cyngor. Rhannodd y wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu fel teulu a oedd wedi cael ei groesawu gan ysgolion.

Darparodd yr Ymgynghorydd ar gyfer Dysgu Ôl 16 ac Oedolion yn y Gymuned drosolwg o lansiad y Rhaglen Dysgu fel Teulu y llynedd a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda Swyddogion, y Ffederasiwn Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid ysgolion cynradd i hyrwyddo Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Roedd hyn yn llwyddiannus, gydag 14 o ysgolion cynradd a 2 ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn prosiectau gwahanol, ac eglurodd y pynciau a oedd yn derbyn sylw yn y prosiectau. Darparodd wybodaeth ar y rhaglen Welis yn y Coed a oedd yn gweithio gyda 200 o rieni gan ganolbwyntio ar ddarllen, cyfathrebu a gweithio yn yr awyr agored.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Preece fod hyn yn rhagorol, yn arbennig cais Estyn am ddwy astudiaeth achos arfer orau i hyrwyddo'r rhaglen ar draws Cymru. Gan fod naratif a fframwaith Estyn wedi newid, ystyriodd a fyddai sesiwn hyfforddiant yn ddefnyddiol i helpu Aelodau i ddeall ar beth mae Estyn yn edrych a'r math o eiriad a ddefnyddir yn eu hadroddiadau.

Soniodd y Cynghorydd Bill Crease am ei amser yn gweithio yn y maes addysg i oedolion ac roedd yn deall yr effaith gadarnhaol y gallai prosiectau fel hyn ei chael. Gan gyfeirio at yr argymhellion, dywedodd y dylai'r Pwyllgorau Craffu fedru datblygu cyfres o amcanion mesuradwy yn seiliedig ar y pedwar argymhelliad, y gallai'r Pwyllgor eu harchwilio a mesur eu cynnydd yn rheolaidd.

Diolchodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) i'r Cynghorwyr Mackie a Crease am eu sylwadau defnyddiol a'r sicrwydd a ddarparwyd gan yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion mewn perthynas â'r camau nesaf o ran datblygu'r argymhellion. Byddai'r cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu darparu drwy'r Bartneriaeth a'u cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor er mwyn rhoi trosolwg i Aelodau a chyfle iddynt graffu ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Diolchodd i'r Uwch Reolwr - Gwella Ysgolion a'r Ymgynghorydd ar gyfer Dysgu Ôl 16 ac Oedolion yn y Gymuned a'r tîm sydd ynghlwm â'r Bartneriaeth am eu gwaith a oedd wedi arwain at gynnig gwych i drigolion yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y trosolwg a ddarparwyd gan yr Ymgynghorydd ar gyfer Dysgu Ôl 16 ac Oedolion yn y Gymuned a dywedodd fod yr angen wedi'i nodi'n glir a bod yr adran wedi ystyried sut i sefydlu'r broses i gefnogi'r angen hwnnw.

Llongyfarchodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden bawb a oedd ynghlwm â'r gwaith hwn, dywedodd ei fod yn gyflawniad arbennig a'u bod yn llwyr haeddiannol o'r anrhydeddau gan Estyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Bill Crease yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau Arolwg Estyn a'u bod wedi cael sicrwydd gan y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn Sir y Fflint.

## 31 DYSGU O GRŴP MONITRO PERFFORMIAD YR YSGOL

Gan gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion y gwaith mae'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion wedi'i gwblhau gan gynnwys y gefnogaeth a ddarparwyd a'r heriau a wynebwyd gan ysgolion sy'n tanberfformio. Darparodd wybodaeth ar y newidiadau cyson mewn perthynas â gwella ysgolion, p'un a yw hynny'n lleol neu'n genedlaethol, gyda phob ysgol ar eu siwrnai eu hunain tuag at welliant er mwyn canolbwyntio'n well ar ganlyniadau eu pobl ifanc. Roedd gan bob ysgol gynlluniau a dulliau cefnogaeth i'w helpu i ddarparu eu blaenoriaethau mewn perthynas â gwelliant. Roedd angen cefnogaeth â mwy o ffocws o bryd i'w gilydd, a soniodd am gyfarfodydd y Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru (GwE) a oedd yn ystyried cynnydd ysgolion unigol, ac amlinellodd sut byddent yn ymdrin ag ysgolion. Os oedd unrhyw ysgol yn ymofyn cefnogaeth ychwanegol, byddai hyn yn cael ei uwchgyfeirio at y Bwrdd Ansawdd ar gyfer yr Awdurdod Lleol a GwE, a byddai penderfyniad yn cael ei wneud i uwchgyfeirio at y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion yn dilyn hynny. Roedd hon yn broses gynhyrchiol a chadarnhaol a oedd yn galluogi gwelliannau cyflym. Ni fyddem yn dymuno i unrhyw ysgol fynd drwy'r broses hon, ond roedd yn anochel o ystyried yr heriau sy'n wynebu ysgolion. Oedwyd hyn yn ystod y pandemig, ac yn sgil gohirio ymweliadau Estyn, bu rhai ysgolion yn destun y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion yn hirach na'r disgwyl. Y pwyntiau allweddol oedd y camau nesaf a

gytunwyd i helpu ysgolion i wella ac eglurodd y fframwaith gwahanol ar gyfer atebolrwydd.

Siaradodd y Cynghorydd Dave Mackie fel aelod panel blaenorol ac eglurodd ei fod wedi parhau i ddysgu gyda chefnogaeth y Prif Swyddog. Dywedodd fod y broses hon yn gweithio ac yn creu'r amgylchedd a'r canlyniadau cywir i helpu i gael ysgolion ar y trywydd iawn.

Cytunodd y Cynghorydd Carolyn Preece gan ddweud ei bod wedi mynychu nifer o arolygon lle bu'n rhaid gosod ysgolion dan fesurau arbennig. Roedd yn amlwg yn ystod ei hail ymweliad â'r ysgol gydag Estyn ei fod yn llwyddiannus. Cyfeiriodd at yr ail argymhelliad a gofynnodd a fyddai modd iddi gynnig ei henw.

Cyfeiriodd Mrs Wendy White at yr ysgolion ffydd o fewn Sir y Fflint a chanmolodd yr Uwch Reolwr a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) am y gefnogaeth a ddarparwyd a dywedodd bod Sir y Fflint yn gweithio mewn modd cadarnhaol iawn gyda'r Esgobaeth Gatholig.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y broses yn un llwyddiannus a sefydledig sy'n darparu cefnogaeth a her i ysgolion gan ddarparu ymyrraeth cyn arolwg Estyn. Cyfeiriodd at yr arolwg Estyn yn 2011 a argymhellodd y dylai aelodau gymryd rhan yn y panel hwn i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa mewn ysgolion, ac roedd swyddogion yn gwerthfawrogi safbwynt Aelodau ar y Panel. Roedd gan Aelodau a oedd yn llywodraethwyr ysgol brofiad o'u hysgol eu hunain yn ogystal â barn wrthrychol i ofyn cwestiynau i ysgolion a herio swyddogion i sicrhau fod y gefnogaeth gywir yn cael ei darparu. Roedd y cyfarfodydd rheolaidd yn cynnig cyfle i fonitro cynnydd y cynlluniau cymorth ac amlygu'r effaith ar welliannau. Awgrymodd y dylai unrhyw aelod a oedd yn awyddus i gymryd rhan yn y panel anfon e-bost ati hi, yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion neu'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu. Byddai gweithdy'n cael ei drefnu gyda'r aelodau hynny i ddarparu manylion ychwanegol.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr argymhelliad cyntaf a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bill Crease.

Cynigiodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst yr ail argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Paul Cunningham

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a gwblhawyd gan y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion a'r newid o gategorïau cenedlaethol i'r fframwaith gwella ysgolion newydd; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau'r Aelodau canlynol a fyddai ar gael i gynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion:-

- Y Cynghorwyr: Bill Crease, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece ac Arnold Woolley

## 32. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Gan gyflwyno Adroddiad Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 a dywedodd nad oedd yn ofyniad statudol mwyach i baratoi Cynllun y Cyngor. Roedd y Cynllun yn amlinellu sail y Cyngor ar gyfer bodloni gofynion perfformiad ac yn cynnwys cynlluniau cadarn yn amlinellu'r siwrnai i fodloni'r gofynion hynny. Cyfeiriodd Aelodau at adran 1.02 o'r adroddiad, ac eglurodd sut cwblhawyd yr adolygiad. Cyfeiriodd Aelodau at adran 1.04 o'r adroddiad a'r Atodiad a oedd yn amlinellu'r blaenoriaethau arfaethedig a fyddai'n cael eu hadolygu gan y Pwyllgor yn rheolaidd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at y diffiniadau dan Addysg a Sgiliau ac nid oedd yn gallu gweld unrhyw beth a oedd yn ymwneud yn benodol â chydraddoldeb o ran canlyniadau yn arbennig ar gyfer plant difreintiedig a'r rheiny sy'n mynd drwy'r system ofal.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) at yr eitem gyntaf mewn perthynas ag Addysg a Chyflawniad, a dywedodd nad oedd hi'n gallu sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau ar gyfer bob dysgwr. Roedd cefndiroedd, profiadau a gallu gwybyddol bob dysgwr yn wahanol, a oedd yn cael effaith ar eu cyflawniad addysgol. Rôl y cyngor a'r ysgol oedd darparu cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr gan roi cyfle iddynt ymgysylltu gyda'r cynnig cwricwlwm a'r cynnig cwricwlwm ychwanegol ehangach ar iechyd a lles emosiynol.

Roedd y Cynghorydd Parkhurst yn derbyn bod hyn y tu hwnt i allu'r Cyngor, ond nid oedd yn gweld y dyhead na'r amcan, ac roedd yn bryderus na fyddai'n derbyn y sylw hanfodol. Eglurodd y Prif Swyddog ei fod yn amcan lefel uchel ac y byddai cyfres o dargedau arbennig o fewn Cynllun y Cyngor y gallai'r portffolio weithio tuag atynt. Rhoddodd sicrwydd i'r Cynghorydd Parkhurst fod y targedau hynny'n adlewyrchu bob dysgwr o fewn Sir y Fflint ac yn rhoi ystyriaeth arbennig i anghydraddoldeb, a'i effaith ar addysg. Dywedodd y byddai hi'n bwydo hyn yn ôl i sicrhau ei fod yn derbyn sylw priodol mewn modd ymarferol a hawdd i'w reoli.

Teimlai'r Cadeirydd yr ystyriwyd bod Sir y Fflint yn darparu cyfleoedd i wella hunanhyder, lles ac addysg ar gyfer ystod eang o bobl. Diolchodd i bawb a oedd wedi bod ynghlwm â hyn, am fagu hyder, darparu llefydd diogel a pharatoi nifer o bobl i ehangu eu sgiliau er mwyn sicrhau cyflogaeth a gwella eu sgiliau bywyd a chymdeithasol. Roedd effaith y gwaith hwn yn dechrau dod i'r amlwg yn y gymuned ehangach, ac roedd cydnabyddiaeth amlwg bod gwaith ar y cyd rhwng partneriaid wedi ehangu'r cynnig hwn. Roedd y Cadeirydd yn cytuno gyda'r awgrym a wnaed gan y Cynghorydd Preece y byddai'r Pwyllgor yn elwa o weithdy Estyn ac awgrymodd y dylid cynnwys hyn yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd David Richardson.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi Blaenoriaethau, Is-flaenoriaethau ac amcanion Lles arfaethedig Cynllun y Cyngor 2023-28, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 33 AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.27 pm)

..............................

**Y Cadeirydd**